Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate









Rhifyn 7

# Croeso i Gylchlythyr Haf 2022



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad y Cadeirydd | 3 |
| Cyhoeddiadau: Gwobrau Blynyddol Ystadau Cymru 2022 | 4 |
| Cynllun Grant Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW3) | 5 |
| Rydym eich angen chi! | 5 |
| Stori Nodwedd: Castell Caerffili | 6 |
| Adroddiad Richard | 8 |
| Cornel Clare | 9 |
| Rhywbeth a allai fod o ddiddordeb! | 11 |
| Hyfforddi a Dolenni Diddorol | 13 |

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG45853, ISBN digidol 978-1-80364-782-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad y Cadeirydd



## Croeso i rifyn 7 o gylchlythyr Ystadau Cymru

Wrth i mi ysgrifennu'r cyflwyniad hwn i rifyn 7 o'r cylchlythyr, mae'r arwyddion "yn ôl i'r ysgol" wedi dechrau ymddangos yn y siopau sy'n nodi dechrau gwyliau haf yr ysgolion. Gyda'r galwadau ar ein hamser yn ein bywyd gwaith- mae'n bwysig ein bod yn cymryd gwyliau i ymlacio ac adfywio. Ar y thema hon, ac yn y rhifyn hwn, ymwelodd Clare ac Amanda â Chastell Caerffili i weld sut mae Cadw yn mynd i'r afael â heriau datgarboneiddio a bioamrywiaeth.

Er na allai neb dwi'n siwr warafun teithio tramor, mae ymweld â'n hatyniadau twristaidd lleol ein hunain yn cadw arian yn ein heconomi.

Bydd cymryd seibiant yn caniatáu inni i gyd wynebu'r heriau sydd o'n blaenau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru.

Heriau fel:

- Ail-lunio canol ein trefi a'n dinasoedd i adlewyrchu patrymau gweithio hybrid yn well;
- Asesu allyriadau carbon ein gweithleoedd a'n cymudau ac yna eu lleihau;
- Meddwl eto sut rydym yn defnyddio adeiladau i ddarparu gwasanaethau i'n dinasyddion.

Hefyd, mae gennym yr heriau parhaus o gyflawni ein cyfrifoldebau fel cenedl noddfa wrth roi cartrefi i ffoaduriaid o'r Wcráin.

Wrth fyfyrio ar rai o'r heriau, mae'r tywydd poeth yng Nghymru ar hyn o bryd yn un ohonynt. Mae'n achosi pryder o ran iechyd, mae'n amharu ar fywyd gwaith a bywyd gartref ac i mae'n rhoi, mwynhad i rai – os ydynt yn ddigon gofalus. Mae'n adlewyrchu'r newidiadau i'r hinsawdd a fydd yn tarfu cymaint ar genedlaethau'r dyfodol os na fyddwn yn gweithredu'n effeithiol nawr.

Mae hefyd yn ysgytwad i bob un ohonom yn y gwasanaethau cyhoeddus i ystyried dylunio a darparu ein seilwaith yn fwy cadarn yn ystod cyfnodau o dywydd eithriadol o boeth ac oer sy'n debygol o ddod yn amlach dros y degawdau nesaf.

Mae angen i ni feddwl ar y cyd a darparu ffyrdd cydweithredol creadigol o gydweithio – gobeithio y bydd y cyfleoedd i ddod o hyd i gyllid trwy ein cynllun grant ACPW3 ac wrth gwrs Gwobrau Ystadau Cymru yn ysbrydoli. Ac, wrth gwrs, mae cael seibiant, yn golygu y byddwn yn dychwelyd wedi'n hadnewyddu ac yn edrych ar ein llwyth gwaith mewn ffordd wahanol. Efallai gyda rhywfaint o ysbrydoliaeth ar sut i adnewyddu ein pwrpas, gwneud cysylltiadau newydd a symud ymlaen i gyflawni'n well.

Un o'r pethau sy'n fy ysbrydoli yw Ysgrifenyddiaeth Ystadau Cymru sy'n gweithio mor galed. Mae darllen eu colofnau yn rhoi pleser mawr imi – taith ddysgu bersonol Amanda; profiadau Clare o ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth; a Richard yn darparu ei adroddiadau. Mae gan Richard ddegawd o brofiad yn gweithio gydag Ystadau Cymru a'r corff wnaeth eu rhagflaenu. Mae llawer o lwyddiannau Ystadau Cymru yn deillio o'r safonau uchel a osodwyd ganddo ef gyda chymorth yr Ysgrifenyddiaeth a'r Bwrdd.

Gobeithio y bydd y rhifyn hwn yn parhau i'ch ysbrydoli yn eich gwaith pwysig.

# Gwobrau Blynyddol Ystadau Cymru 2022

Ar ôl lansio Gwobrau blynyddol Ystadau Cymru 2022, byddem wrth ein boddau yn cael gweld eich prosiectau cydweithredol o bob rhan o Sector Cyhoeddus Cymru. Byddem yn croesawu ceisiadau oddi wrth gydweithwyr o bob math yn y Sector Cyhoeddus a phob math o brosiectau, ni waeth pa mor fawr neu fach!

## Dyma'r categorïau ar gyfer enwebiadau 2022:

- Creu twf economaidd -

- Dangos cynaliadwyedd amgylcheddol -

- Sicrhau gwerth cymdeithasol -

- Darparu Arloesedd -

Cyflwynwch eich cais erbyn 5yh ar 16 Medi 2022.

Edrychwch ar dudalen Gwobrau Ystadau Cymru ar ein gwefan i gael gwybod mwy.

**Gwobrau Ystadau Cymru 2022 | LLYW.CYMRU**

Rydym yn edrych ymlaen at weld eich enwebiadau!

# Cynllun grant Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW3)

**Cafodd ein cynllun grant ACPW3 ei lansio ym mis Mehefin eleni!**

Nod grant ACPW3 yw cefnogi cydweithio rhwng sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru. Rhaid i brosiectau gynnwys asedau tir neu eiddo'r sector cyhoeddus, a'r blaenoriaethau allweddol yw:

- gwella cynaliadwyedd ystad gyhoeddus Cymru, drwy gefnogi gwaith i ddatblygu sgiliau a dull strategol o ddatgarboneiddio;
- goresgyn rhwystrau i gydweithio.

Rhaid i bob prosiect gydweithredu ag o leiaf un corff arall yn y sector cyhoeddus (gyda'r trydydd sector yn bartneriaid cydweithredol yn unig).

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n cyfrannu at:

- **ddatgarboneiddio adeiladau ac asedau cyhoeddus eraill;**
- **gwella bioamrywiaeth drwy ddefnyddio asedau cyhoeddus;**
- **gwella cynaliadwyedd amgylcheddol drwy ddefnyddio asedau cyhoeddus;**
- **creu neu gefnogi twf neu gadernid economaidd drwy ddefnyddio asedau cyhoeddus;**
- **creu gwerth cymdeithasol drwy ddefnyddio asedau cyhoeddus;**
- **arloesi drwy ddefnyddio asedau cyhoeddus.**



## Eisiau rhagor o wybodaeth?

Os felly ewch i dudalen grantiau ACPW3 Ystadau Cymru i weld ein Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr **Cam 3 Rhaglen Gydweithredu Cymru ar Asedau (ACPW3): canllawiau i ymgeiswr | LLYW.CYMRU**



# Mae'ch angen chi arnom!

Rydym yn chwilio am enghreifftiau gwych o Drosglwyddo Asedau Cymunedol neu brosiectau rhagorol ar gyfer Astudiaethau Achos o bob rhan o Sector Cyhoeddus Cymru.

**Os oes gennych unrhyw brosiectau diddorol, byddem wrth ein boddau'n clywed oddi wrthych!**

Cysylltwch â blwch post Ystadau Cymru
**YstadauCymru@llyw.cymru**



# Stori Nodwedd



## Castell Caerffili: Llecyn Tawel yng Nghanol y Dref

Ac yntau'n adeilad urddasol ond hardd ar safle 30 erw, Castell Caerffili yw **castell mwyaf Cymru, a'r ail gastell mwyaf ym Mhrydain** ar ôl Windsor. Mae'r tir o'i amgylch yn cynnig llecyn tawel i haneswyr a'r rhai sy'n caru natur fel ei gilydd lle gallant hefyd ymweld â'r neuadd fawr hardd, edrych ar y golygfeydd, ac i'r rhai sy'n gwylio Game of Thrones, gwrdd â draig!



Adeiladwyd y gaer ganoloesol hon yn bennaf rhwng 1268 a 1271 ac mae'n tystio **i'r ffaith bod yr Eingl-Normaniaid wedi tra-arglwyddiathu dros yr ardal**. O 1928 tan ddechrau'r Ail Ryfel Byd, adferodd Ardalydd Bute holl rannau'r castell a oedd wedi cwympo ers yr Oesoedd Canol ac mae **gwaddol y prosiect adfer yn parhau**.

Ar ôl cais i Gyngor Caerffili ym mis Rhagfyr 2021, rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Mehefin 2022 ar gyfer **prosiect gwella £5m yn y castell**. Cafodd yr holl waith sy'n rhan o'r prosiect ei gasglu ynghyd mewn un ddogfen, sef **Uwchgynllun Rhaglen Gwaith Gwella'r Dyfodol (FIWPM)** a'i nod yw cryfhau sefyllfa'r castell fel atyniad treftadaeth o'r radd flaenaf. Un o brif elfennau'r uwchgynllun yw adeiladu ar waith a wnaed eisoes i greu **ardal ecolegol gydnerth lle gall ymwelwyr fwynhau a rhyngweithio â natur** wrth grwydro'r lleoliad hanesyddol.

Cwblhawyd **Arolwg ac Asesiad Cynefin Cam 1** estynedig yn 2019 ac mae'n llinell sylfaen ar gyfer amodau ecolegol ar y safle. Nodwyd bod angen cynnal rhagor o arolygon sy'n canolbwyntio ar **gyfleoedd a risgiau ecolegol sy'n codi yn wrth ddylunio ac adeiladu ardaloedd newydd ac** yn ystod **gwaith cynnal a chadw neu adnewyddu mewn ardaloedd sy'n bodoli eisoes**.

Mae'r arolygon wedi llywio **Cynllun Gwella a Rheoli Cynefinoedd** (CRhPY) sy'n nodi'r mesurau arfaethedig i **greu, gwella a rheoli cynefinoedd** ac sydd ag **amcanion** a **rhaglen fonitro** i asesu cynnydd. Mae'r CRhPY yn ddogfen weithio sy'n cwmpasu cyfnod o **bum mlynedd** ac wrth i'r cynnydd gael ei asesu, bydd mesurau llwyddiannus yn llywio rheolaeth o'r safle yn y **tymor hir**.

**Mae'r cynllun yn cynnwys amrywiaeth eang o gamau sy'n cynnwys:**

- Cadw a rheoli gwrychoedd, glaswelltir, coetir, a phrysgwydd yn briodol.
- Creu cynefinoedd newydd sy'n ecolegol werthfawr o fewn y Safle gan gynnwys plannu stribedi peillwyr, coed brodorol, a glaswelltir cyfoethog o ran rhywogaethau.
- Cynnal a gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau pwysig lleol i gynnwys llai o dorri gwair ar y safle, gosod blychau ystlumod ac adar, cyfyngu mynediad y cyhoedd i ardaloedd bywyd gwyllt pwrpasol, creu ardaloedd tywyll trwy leihau llygredd golau a gosod rafftiau arnofiol ar gyfer llystyfiant.
- Gwrthdroi tueddiadau ecolegol negyddol drwy ddifa Clymog Japan a Jac y Neidiwr, rheoli Alaw Canada, lleihau sbwriel, a gweithredu mesurau rheoli er mwyn atal gordyfiant algâu gwyrddlas.
- Monitro'r gwaith o sefydlu cynefinoedd a gosodiadau bywyd gwyllt a monitro'u cyflwr..

Dim ond ychydig o amser mae'r CYWARCH wedi bod ar waith, ond mae'r newidiadau eisoes yn amlwg – gellir gweld blodau gwyllt hardd ar draws y safle sydd nid yn unig yn gwella'r ardal yn weledol ond yn darparu bwyd y mae mawr ei angen ar gyfer peillwyr lleol. Un llwyddiant mawr fu gosod Rholau Rhisgyll Coconyt sy'n darparu rheolaeth erydu ar unwaith i ymylon ffosydd. Mae'r rholiau wedi'u plannu â blodau ac anifeiliaid brodorol i helpu i sefydlu cynefinoedd bywyd gwyllt a helpu i wella bioamrywiaeth y safle.



Mae rheolwr prosiect ar ran Cadw, Stephen Jones, wedi bod yn hynod o hapus gyda'r camau a gymerwyd hyd yn hyn, ac yn datgan:


**'Mae'r prosiect hwn wedi bod yn heriol ac ar yr un pryd, yn gyffrous'.**

Y canlyniad terfynol yw llawer o liw a phlanhigion a fydd yn annog y gwenyn a'r boblogaeth glöynnod byw o amgylch y castell a'r ardal i ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am Gastell Caerffili, ewch i **Castell Caerffili | Cadw (llyw.cymru)**

Os hoffech gopi o'r CRhPY anfonwch e-bost at **ystadaucymru@llyw.cymru**

# Adroddiad Richard



**Mae Richard Baker, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Tir Llywodraeth Cymru a swyddog cyfrifol Ystadau Cymru yn rhoi ei farn bersonol yn y gyntaf o golofn reolaidd newydd ar gyfer cylchlythyr Ystadau Cymru.**

Mae cylch gwaith Ystadau Cymru yn eang ac nid dim ond trwy'r bwrdd cenedlaethol yr ydym yn cyflawni'n gwaith. Ynghyd â'n Cadeirydd, Beverley Owen a Dr Claire Bloomfield, rwy'n gweithio i ailsefydlu'r byrddau rhanbarthol ar gyfer Ystadau Cymru y tu allan i Ogledd Cymru. Mae'n dda gennyf adrodd bod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud. Bydd y byrddau rhanbarthol yn helpu i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gynrychioli ar draws Cymru gyfan yn ogystal ag ar draws y sectorau gwahanol sydd yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd cenedlaethol.

Gyda'r Bwrdd yn cytuno ar y cynlluniau busnes a chyflawni newydd yn ein cyfarfod yn y gwanwyn, rydym mewn sefyllfa dda i ddatblygu ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer yr ystad gyhoeddus newydd sydd ei hangen yng Nghymru. Mae ein dull o gydweithio yn ganolog i'n gweledigaeth o sector gyhoeddus yng Nghymru sy'n cyflawni mewn dyfodol sero-net.

Mae gan Ystadau Cymru nifer o is-grwpiau sy'n cyflawni tasgau penodol. Mae un is-grŵp o'r fath, o dan fy nghadeiryddiaeth i, yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar broblem asbestos yn yr ystad gyhoeddus. Cawsom ein comisiynu gan y Pwyllgor Partneriaethau'r Gweithlu– y trefniant teirochrog sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, mudiad yr undebau llafur a chyflogwyr i bennu llinell sylfaen o ran maint yr asbestos yn ystad gyhoeddus Cymru, ymchwil ar ba arfer da a drwg sydd allan yna ac ystyried yr angen am arweiniad a hyfforddiant diwygiedig.

Rydym wedi bod yn gwneud gwaith arolygu gyda GIG Cymru, llywodraeth leol, y sector cynghorau tref a chymuned a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Mae ein cyfraddau ymateb hyd yn hyn wedi bod yn amrywiol braidd, ond dros yr haf hwn, byddwn yn cysylltu â chyrff eto i gael gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym wedi dechrau dadansoddi'r data presennol a dechrau meddwl am atebion posibl. Mae hyn yn destun adolygiad pellach unwaith y bydd gennym yr wybodaeth bellach yr ydym yn gofyn amdano. Bydd hyn yn caniatáu i ni adrodd yn ôl i Bwyllgor Partneriaeth y Gweithlu ac i fwrdd cenedlaethol Ystadau Cymru ym mis Hydref gyda rhai argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod cadeirio'r is-grŵp wedi bod yn brofiad da, gan ddangos gwir fanteision cynllun cydweithredu craidd Ystadau Cymru. Drwy weithio'n agos â'n partneriaid yn yr undebau llafur, y sector cynghorau tref a chymuned a llywodraeth leol a chynrychiolwyr cyrff cyhoeddus eraill Cymru, rydym yn gallu gwneud gwaith sydd â mwy o ffocws er mwyn diwallu anghenion ystad gyhoeddus Cymru.

Rwy'n parhau'n ddiolchgar am y gefnogaeth a roddwyd gan ein hysgrifenyddiaeth weithgar drwy gydol y flwyddyn i yrru'r agenda ymlaen. Yng ngoleuni hyn, rwy'n dymuno pob dymuniad da i Ria, sy'n ein gadael yr haf hwn, yn ei rôl newydd. Rwy'n arbennig o ddiolchgar am ei gwaith yn sefydlu cynllun cyllid grant ACPW 3. Byddwn yn esgeuluso fy nyletswyddau pe na bawn i'n sôn bod y cynllun yn aros am eich ceisiadau cydweithredol creadigol. Nid yw diffyg cyllid yn rheswm bellach, diolch i weinidog noddi Ystadau Cymru, Rebecca Evans AS– y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – sy'n dangos ei chefnogaeth i'n gwaith pwysig ac yn sicrhau cyllid.



# Cornel Clare

## Datblygu Sefydliad Cynaliadwy: **Cynaliadwyedd Amgylcheddol**


Yn dilyn y rhifyn diwethaf o Gornel Clare, bydd yr adran hon yn edrych ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn fanylach.

Mae **cynaliadwyedd amgylcheddol** yn ymwneud â chreu cydbwysedd rhwng y ffordd ddynol o fyw a'r byd byw. Gallwn adolygu ein heffaith amgylcheddol fel sefydliad gan ganolbwyntio ar agweddau allweddol fel:

1. **Allyriadau i'r awyr**
2. **Allyriadau i ddŵr**
3. **Defnyddio deunyddiau crai adnoddau naturiol**
4. **Halogi Tir**
5. **Defnyddio ynni**
6. **Gwastraff a gynhyrchwyd**
7. **Defnyddio gofod**

Yn syml, **Agweddau** yw'r holl elfennau hynny sy'n **rhyngweithio â'r amgylchedd** drwy eich gweithgareddau, eich cynnyrch, neu'ch gwasanaethau. Mae creu **cofrestr agweddau** fel rhan o **System Rheoli Amgylcheddol** cyffredinol neu fel dogfen annibynnol yn ffordd ddefnyddiol o ddeall y gweithgareddau hynny sydd fwyaf arwyddocaol. Gall cofrestr roi'r cyfle i chi ystyried eich gweithgareddau, cynnyrch neu wasanaethau allweddol o ran nid yn unig agweddau amgylcheddol ond effeithiau hefyd.





**Effaith amgylcheddol** yw'r **newid (gwirioneddol neu bosibl) i'r amgylchedd** o ganlyniad i agwedd. Mae rhai agweddau'n cael llawer mwy o effaith na'i gilydd ac mae'n bwysig **blaenoriaethu'r rheiny sydd â'r potensial** i wneud y difrod mwyaf i'r amgylchedd naturiol. Un enghraifft fyddai:

- **Math (gweithgaredd/cynnyrch/ gwasanaeth):** Gweithgaredd
- **Disgrifiad o'r gweithgaredd:** Cymorth Swyddfa
- **Agwedd:** Cynhyrchu gwastraff a gwaredu (tirlenwi)
- **Effaith:** Dirywiad tir, llygredd aer (methan), defnydd amhriodol o dir

Trwy ddadansoddi gweithgaredd yn y fath fodd, gallwch weld **pam** y gallai lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i anfon i safleoedd tirlenwi fod **o fudd i'r amgylchedd**. Nid yw effaith lawn gweithgaredd yn glir bob tro ac mae llawer o sefydliadau'n dechrau cynnal dadansoddiad cylch bywyd. **Dadansoddiad cylch bywyd** yw'r weithred o fesur effaith cynnyrch neu wasanaeth **ar hyd ei gylch bywyd**, o'r adnoddau a ddefnyddir i'w **greu**, ar draws y defnydd a wneir ohono gan y **defnyddiwr**, i'w **gyrchfan terfynol**.

Yn dilyn creu cofrestr agweddau, y cam nesaf fyddai ymchwilio i ffyrdd o leihau'r effaith a gewch drwy greu **amcanion a gweithredoedd clir** i'ch helpu i gyrraedd eich nod. **Er enghraifft:**

- **Amcan:** Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei greu 10% bob blwyddyn.
- **Cam 1:** Cyfnewid copïau papur o bost a dderbyniwyd am fersiynau ar-lein/ electronig ac yn y blaen.



Gall **cynllun gweithredu amgylcheddol blynyddol** eich helpu i ddiffinio eich amcanion a'ch gweithredoedd yn glir ac mae'n ffordd hylaw o leihau eich effaith amgylcheddol. Gall templedi cynllun gweithredu amgylcheddol gynnwys **meysydd strategol** o'r busnes neu gall fod yn **fach ac yn canolbwyntio ar weithredu**. Yn aml, y cynlluniau gweithredu llai ond mwy **manwl gywir** sy'n helpu i leihau effeithiau amgylcheddol fwyaf.

Gallai dilyn safon **EMS** megis **ISO14001** fod y ffordd orau o greu sefydliad amgylcheddol gynaliadwy. I'r rhai sydd ddim am ennill achrediad o'r fath, gall dilyn yr egwyddorion sylfaenol, yn enwedig pan ddaw at ddogfennaeth, fod yn werth chweil. Gall dogfennau allweddol gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:

- Polisi amgylcheddol.
- Cofrestr agweddau ac effeithiau amgylcheddol.
- Cofrestr deddfwriaeth neu gyfeiriadur.
- Cofrestr risg sy'n cynnwys bod yn barod ar gyfer argyfwng ac ymateb iddo (atal llygredd, perygl llifogydd ac ati).
- Cynllun gweithredu blynyddol sy'n amlinellu amcanion a thargedau allweddol a sut y byddant yn cael eu cyflawni.
- Adroddiad blynyddol sy'n darparu data allweddol a chrynodeb o'r hyn a gyflawnwyd.

Gall rheoli agweddau amgylcheddol yn llwyddiannus nid yn unig **leihau'r risg o ddifrod ecolegol** a'n helpu i **ddiogelu natur** gall hefyd wella **enw da'r sefydliad, gwella iechyd y cyhoedd** a **lleihau gwastraff** a gall hynny, yn ei dro, **arbed arian i ni**.

Os hoffech wybod mwy am Systemau Rheoli Amgylcheddol neu os hoffech dempled neu enghraifft weithio o un o'r dogfennau a grybwyllir yn yr erthygl hon, anfonwch e-bost at **ystadaucymru@llyw.cymru** at sylw Clare Phillips.

Am ysbrydoliaeth a syniadau ar sut i wneud newidiadau ewch i dudalennau **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 'Cymru Gydnerth'.**

# Rhywbeth a allai fod o ddiddordeb!



## Gwyrddu Ystad y Llywodraeth – Y Gwasanaeth Sifil yn Fyw – Neuadd y Ddinas Caerdydd

Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol a'r digwyddiad dysgu hwn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd ar 21 Mehefin 2022, a threfnwyd y sesiwn gan Swyddogaeth Eiddo'r Llywodraeth. Mae'r digwyddiad blynyddol ar gyfer pawb yn y Gwasanaeth Sifil a Gwasanaeth Cyhoeddus ehangach.

**Dyma drosolwg o ddigwyddiad 2022:**

Agorwyd sesiwn 2022 gydag Ymrwymiadau Gwyrddu cyffredinol Llywodraeth y DU 2021 – 2025, sef:

- **lleihau'r defnydd o ddŵr 8%**
- **lleihau gwastraff 15%**
- **datblygu strategaethau ym addasu i newid hinsawdd**
- **datblygu a chyflwyno Cynlluniau Adfer Natur**
- **lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr**
- **prynu cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy.**

**Tynnodd y digwyddiad sylw at rai dulliau a phrosiectau diddorol:**

Mae Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth wedi bod yn arwain y ffordd ac wedi sefydlu'r Rhaglen Sero Net. Yn 2021-22, arbedwyd £560,000 ar gyfleustodau a chwblhawyd 43 o brosiectau. Cwblhawyd System Boeler Whitehall gan roi deunydd lagio newydd ar 2,000 metr o waith pibellau, gan arbed ynni ac yn Titchfield, rhagwelir y bydd yr ynni gan oleuadau ar Ffordd Segensworth yn cael ei leihau 75% ac mae wedi cefnogi swyddi lleol gyda'r holl becynnu wedi ei anfon yn ôl i'r cyflenwr i'w ailddefnyddio ar gyfer y swp nesaf o oleuadau.

**Greening Government Commitments 2021 to 2025 – GOV.UK (www.gov.uk)**

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi mabwysiadu **dull cyfalaf naturiol** o reoli eu hystod amrywiol o asedau treftadaeth ac ystadau hanesyddol sy'n cynnwys llysoedd, carchardai, cyfleusterau prawf. O dan y dull hwn, pwysleisir bod dŵr, aer, pridd a natur yn asedau amgylcheddol i'w hyrwyddo a'u hystyried ar bob cam o'r broses o wneud penderfyniadau. Defnyddir Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ochr yn ochr â'r dull hwn o werthuso penderfyniadau ac mae ynddo rannau penodol ar yr amgylchedd a gwerth cymdeithasol, Gweler y ddolen isod.

**The Green Book (publishing.service.gov.uk)**

Gweler hefyd yn y diweddariad ecolegol isod brosiectau sydd wedi'u cynnal yn ystod gweithredu cymdeithasol a chymunedol ac ym maes bioamrywiaeth.

**The Ministry of Justice biennial ecology update 2016–18 (publishing.service.gov.uk)**




Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Addysg i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â dŵr mewn ysgolion gan fod miloedd wedi bod mewn perygl o lifogydd, un yn digwydd mewn ysgol ddwy filltir oddi wrth ddŵr a hefyd gyda llawer iawn o ddŵr yn gollwng dros nos.




Prosiect arall gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a phartneriaid yw cynllun Llifogydd Carlisle a'r Hwb Gwybodaeth gwerthfawr, gweler y manylion isod.

**About Us | The Flood Hub**

Gobeithio y byddwn yn eich gweld yng nghynhadledd a digwyddiad dysgu y Gwasanaeth Sifil yn Fyw y flwyddyn nesaf!

# Hyfforddi a Dolenni Diddorol

## Rhwydwaith Amgylcheddol y Gwasanaeth Sifil

Cynyddu gwybodaeth amgylcheddol ledled y Gwasanaeth. Y prif feysydd gwaith yw:

- Newid Hinsawdd
- Adnoddau Naturiol
- Bioamrywiaeth ac Ecosystemau
- Datblygu Cynaliadwy

Mae ystod o ddigwyddiadau ar bynciau penodol a podlediadau ar gael:
**Civil Service Environment Network | CSEN Online**

## Prifysgol Wrecsam

Rhaglen Ynni Carbon Isel, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd
**Ynni Carbon Isel, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd (Prentisiaeth Gradd) – Wrexham Glyndwr University**

## Cyfoeth Naturiol Cymru

Sicrhau bod ein Coetiroedd yn fwy gwydn – Cyfoeth Naturiol Cymru – gwydnwch, amrywiaeth a sut y gallwn helpu

**Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud coetiroedd yn fwy gwydn**
**Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynllunio ar gyfer y Dyfodol**

## Ynni Dŵr

**Cyfoeth Naturiol Cymru / Ynni dŵr**

## Yr Ymddiriedolaeth Carbon

Y Llwybr at Sero Net
**Climate Action Plans & Business Sustainability | The Carbon Trust**

## Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Ynni Gwyrdd – defnyddio pŵer natur
**Green Energy & Energy Conservation | National Trust**

Os hoffech danysgrfio i gael ein Cylchlythyr, os oes gennych unrhyw awgrymiadau am bynciau i'w trafod yn ein rhifyn nesaf neu os hoffech gael eich ystyried ar gyfer stori nodwedd, cysylltwch ag **YstadauCymru@llyw.cymru**